

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Fercher 12^{fed} o Orffennaf 2017 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, L James, C Hughes, D W Jones. R G. Roberts , H Griffiths, M Baines, J Pierce, B Jones,

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, R Jones. T Anwyl-Williams ag A Thomas,

Cadeirwyd ag offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Darllenwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Cyng Anwen Thomas. Amlinnellai ei thristwch wrth ddod i'r penderfyniad ag iddi wastad ei ystyried yn fraint ag anrhydedd fod yn aelod cyhyd. Dymunai pob llwyddiant i'r aelodau presennol.

Derbynwyd ei ymddiswyddiad.

Cytunwyd i'r Clerc anfon llythyr at Anwen i ddiolch iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd

Esboniodd y Clerc iddo holi Raymond Harvey Swyddog Etholiadau Cyngor Gwynedd a chael ar ddeallt gan nad oedd Anwen wedi arwyddo ei bod yn derbyn swydd Cyngorydd bod hawl gan y Cyngor Gyfethol aelod yn ei lle heb orfod galw Is-etholiad

Cytunwyd i'r Clerc roi hysbysebion yn ein hysbysfyrddau fel gwnaethpwyd ar ol etholiad Mis Mai fod

Derbyn cofnodion Mis Mehefin

Derbynwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cyng D Jones-Morris yn cynnig a Cyng Lowri James yn eilio.

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Torri gwair – y Clerc wedi derbyn rhestr toriadau gwair weddill y tymor tyfu ond oedd ond yn cyfeirio at 6 toriad yn hytrach na'r 7 ofynwyd amdanynt. Byddai toriad ddiwedd Mawrth 2018 yn cael ei ystyried fel un toriad flwyddyn ariannol bresennol
Nodwyd fod gwrychoedd mewn sawl man ar ochr palmenmydd angen eu torri yn ol

Clerc i godi yn ddau fater hefo swyddogion Gwynedd.

2. Hysbysfyrddau
Y Cyngor wedi derbyn caniatad i osod hysbysfwrdd yn Sgwar Pentir a Treborth ond Cais i ail-ystyried lleoliad wrth y Ganolfan yn Penrhos er diogelwch cerddedwyr allai fod yn llwybr cerbydau wrth ddarllen ei gynnwys.

Cytunwyd ail edrych ar leoliadau Penrhos a'r Clerc i anfon llythyr Cais Ysbyty Gwynedd drwy Cyng Dafydd Jones-Morris

3. Cysgodfannau Bws Rhyd y groes a Goleufryn
Un o aelodau Parchu Pentir wedi bod yn cwestiynnu Cyngorydd ynglyn a lleoliad cysgodfan Rhydygroes, ag yn awyddus i glywed y rhesymeg gan Cyngor Gwynedd. **Disgwyl ymateb**
Amhosib gosod cysgodfan 'lawn' ar lleoliad Goleufryn a felly Is-Bwyllgor Asedau i drafod Ymhellach.
4. Bocsus Bloda
Nodwyd mae ychydig iawn o liw oedd yn y bocsus blodau eleni

Clerc i wneud ymholiadau hefo Suzanna Winfield

Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid

Darllenwyd cofnodion yr Is Bwyllgor Cyllid 28ain o Fehefin 2017

Esbonwyd yn dilyn derbyn mandad gan y Cyngor Llawn 14eg o Fehefin i'r Is-bwyllgor Cyllid dderbyn adroddiad yr Archwilydd Mewnol ynghyd a'i esboniadau yn y gwahanol elfennau cyllid cyn eu cymeradwyo i'w arwyddo gan y Cadeirydd.

Anfonwyd yr Adroddiad ariannol i Gwmni BDO erbyn 3ydd o Orffennaf

Cytunwyd talu y rhestr taliadau oedd yr IBC yn argymhell eu talu

HMRC Er mwyn defnyddio y credyd £232.46 Ni thalwyd yn ystod Mis 2 a 3 a dim ond **£39.74** mis yma Hefin Hughes **£200.80** Giat y Septic Tanc yn Glasinfryn

Swyddfa Archwyllo Cymru

£333.90

Archwylid 2015-16

D W Lewis **£710.00**
Suzanna Winfield **£245.00**
Anghenion Swyddfa **£71-21**
Elwyn Jones **£363.10**

Torri gwair Mis Mehefin
Garddio
Toner
Cyflog Gorffennaf

Ceisiadau Cynllunio 1 cais

C17/0576/25/LL 5, Ty'r Ysgol Coed Menai Treborth Bangor LL572RX

Adeiladu Uned wyliau 2 ystafell wely tu cefn i'r ty
GWRTHWYNEBU ar sail ei fod tu allan i ffin datblygu ag yn newid delwedd a dyluniad y lleoliad

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Prydles Canolfan Penrhos
Y Cadeirydd a'r Cyng L James , D Jones-Morris a'r Clerc wedi cyfarfod ar yr 22ain o Fehefin i gymharu y ddwy brydles, ac argymhell fod Gamlins yn gweithredu ar ein rhan i ddod i delerau hefo Cyngor Gwynedd
Cytuno mewn egwyddor i delerau'r ddogfen gan nad oedd ein Cyfreithiwr yn rhagweld unrhyw delerau annerbyniol.
Angen cytundeb gyfreithiol rhyngom a'r pwyllgor rheoli cyn arwyddo
Nodwyd nad oedd Cyng B Jones o blaid
 - Cadarnhau lleoliadau Hysbysfyrddau i'r Adran Gynllunio
 - Yn benodol ardal mynedfa Ysb Gwynedd
 - Mapiau
 - Cadarnhau Hawlfraint ar gyfer eu defnydd ar y We
Gareth Roberts wedi cadarnhau fod yr hawl gennym i'r gwefannu
 - Safle bws Cae Garnedd
Caniatad gan Cyng Gwynedd ond **angen i'r Clerc gylch lythyru tai cyfagos**
 - Fynwent - Dim i'w adrodd
 - Llaw-lyfr aelodau a'i gynnwys
Gwaith eisioes wedi ei ddechrau ar y llawlyfr – **cytuno i gynnwys enwau, cyfeiriad a rhifau cyswllt. Dyddiadau y gwahanol bwyllgorau a'r Cyngor Llawn Cyfrinair i fynd i Safle We Unllais**

Materion Cynghorwyr

Cyng D Jones –Morris yn codi unwaith eto o broblemau parcio yn Penrhos.

Cyng H Griffiths yn adrodd i Ganolfan Gymunedol Glasinfryn gael Cyf Blyneddol llwyddianus iawn eleni a diddodeb mawr mysg y trigolion am y mapiau

Cyng Richard G Roberts yn adrodd fod gordyfiant yn achosi problemau ar hyd Ffordd Penrhos

Clerc i Gysylltu a Cyng Gwynedd i lythyru

Cyng B Jones yn ychwanegu fod y broblem gordyfiant hefyd ar gongl Ffordd Penrhos a Ffordd Coed y Maes yn dod drosodd o dir Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyng Menna Baines yn Llongyfarch Cyng Jean Pierce a 'chyfeillion Ysbyty Gwynedd ag eu llwyddiant yn codi arian

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00

Cyfarfod nesaf Nos Iau 14eg o Fedi yn y Swyddfa am 7.00